Ecological
Land
Cooperative

Ecological Land Cooperative	
Dogfen Bolisi	
Enw'r Ddogfen:	**Polisi Iaith Gymraeg**
Cymeradwywyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar	18/08/23
Amserlen Adolygu	Bob DWY flynedd
Adolygiad nesaf	Awst 2025

Disgrifiad o'r Ddogfen

Mae'r Ecological Land Cooperative yn cydnabod bod darparu gwasanaeth o safon yn Gymraeg a Saesneg yn arfer gorau wrth weithio yng Nghymru. Rydym wedi penderfynu mabwysiadu polisi iaith Gymraeg i ddangos ein hymroddiad i'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

Gweithredu a Sicrhau Ansawdd

Rydym yn gweithredu'r polisi ar unwaith, a bydd yn aros mewn grym hyd nes y cytunir yn ffurfiol ar unrhyw newidiadau.

Bydd y Polisi'n cael ei adolygu bob dwy flynedd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr, yn gynt os bydd amgylchiadau'n dangos bod hyn yn angenrheidiol.

Bydd pob agwedd ar y Polisi hwn yn agored i'w hadolygu ar unrhyw adeg.

Nod a Chwmpas

Mae'r Polisi hwn yn nodi rhwymedigaethau'r ELC mewn perthynas ag egwyddor Deddf yr Iaith Gymraeg y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Lle mae capasiti'n caniatáu, bydd y ddwy iaith yn mwynhau'r un statws yn ein gweithgareddau a'n gwasanaethau yng Nghymru.

Deddfwriaeth Gysylltiedig

Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cyd-destun

Rydym yn cydnabod bod statws swyddogol i'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Byddwn yn cymryd camau at gyflawni'r uchelgais hon, a bydd ein hymrwymiadau a'n targedau presennol wedi'u nodi yn y Polisi Iaith Gymraeg hwn

Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymiadau yn y polisi hwn yn rhesymol. Maent wedi'u cyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru, yn ogystal ag i weithgareddau a gwasanaethau y gallwn ddylanwadu arnynt.

Fel sefydliad yn Lloegr, mae ein capasiti presennol o ran siarad Cymraeg yn gyfyngedig, ond byddwn yn ymdrechu i gefnogi pob ymholiad Cymraeg hyd eithaf ein gallu.

1) **Arwyddion**

1.1) Bydd unrhyw arwyddion a ddarperir gan yr ELC mewn safleoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, gan ddilyn yr egwyddorion a nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn cynnwys:

- Bydd testun Cymraeg yn cael ei osod mewn ffordd sy'n golygu mai'r Gymraeg sy'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf
- Bydd y testun Cymraeg yn gywir o ran ystyr a mynegiant

1.2) Bydd stiwardiaid fferm yn cael eu hannog i ddarparu arwyddion dwyieithog ar unrhyw dir sy'n cael ei rentu neu ar les gan yr ELC, gan ddefnyddio'r egwyddorion a nodir uchod.

2) Cyfathrebu

2.1) Bydd yr ELC yn cynllunio ar gyfer y Gymraeg ym mhob cynllun cyfathrebu sy'n ymwneud â safleoedd a ffermydd yng Nghymru, gan gynnwys cyllidebu ar gyfer gweithgarwch cyfieithu pan fo angen.

2.2) Bydd gwybodaeth allweddol ar wefan yr ELC yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr Ecological Land Cooperative, manylion am wneud cais i fod yn ffermwr gyda'r gydweithfa, a gwybodaeth am ein safleoedd a'n ffermydd yng Nghymru.

2.3) Bydd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch cyhoeddiadau pwysig am safleoedd a ffermydd yng Nghymru yn ddwyieithog, gan ddefnyddio canllawiau a nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

2.4) Bydd deunyddiau ar gyfer gwneud cais i fod yn stiward a datganiadau o ddiddordeb am safleoedd a ffermydd yng Nghymru yn ddwyieithog lle bo hynny'n bosibl.

2.5) Bydd deunyddiau wedi'u hargraffu i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog, gan ddilyn y canllaw arddull a awgrymir gan Gomisiynydd y Gymraeg

3) Stiwardiaid fferm

3.1) Bydd hysbysebion ar gyfer stiwardiaid fferm newydd ar gyfer safleoedd a ffermydd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir cyflwyno ceisiadau'n Gymraeg neu'n Saesneg.

3.2) Byddwn yn annog yn gryf i stiwardiaid fferm ar safleoedd a ffermydd yng Nghymru i fabwysiadu polisi iaith Gymraeg yr ELC yn eu busnesau unigol

3.3) Bydd stiwardiaid di-Gymraeg ar safleoedd a ffermydd yng Nghymru yn cael eu hannog i gymryd gwersi Cymraeg

3.4)Bydd yr ELC yn creu canllaw ar gyfer pob stiward fferm yng Nghymru i'w helpu i fod yn ddwyieithog.

4) Recriwtio

4.1) Wrth recriwtio ar gyfer swyddi sy'n ymwneud yn benodol â safleoedd a ffermydd Cymru, bydd yr ELC yn:

- Cynhyrchu deunyddiau recriwtio yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Hysbysebu swyddi drwy sefydliadau Cymraeg eu hiaith
- Derbyn ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg
- Nodi'r gallu i siarad Cymraeg fel gofyniad dymunol
- Nodi'r parodrwydd i ddysgu Cymraeg fel gofyniad hanfodol